**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/71/2023

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddBusiness@senedd.wales

03 Mawrth 2023

Annwyl Elin,

Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 22 Medi a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) arno ar 3 Tachwedd, ac yna LCM Atodol (SLCM) ar 21 Rhagfyr ac eto ar 6 Chwefror.

Cynhaliwyd y Cyfnod Pwyllgor ar 16 Chwefror. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ac rydym yn dadansoddi'r manylion i weld a yw'r rhain yn sbarduno’r gofyniad i ymgymryd ag SLCM pellach. Rhannodd Llywodraeth y DU rywfaint o gynnwys polisi ynglŷn â’r diwygiadau arfaethedig, ond heb rannu'r holl fanylion am y gwelliannau a gyflwynwyd. Yn ogystal, mae’n bosibl y bydd gwelliannau perthnasol, nad ydynt yn rhai’r Llywodraeth, yn cael eu cyflwyno yn ystod y dyddiau pwyllgor dilynol sydd wedi’u trefnu ar gyfer 23 Chwefror, 28 Chwefror a 2 Mawrth a gallai hyn arwain at gytuno ar welliannau pellach i'w cynnwys yn y Bil.

Byddwn yn paratoi un SLCM yn ymdrin â'r holl welliannau perthnasol a gyflwynwyd ar gyfer y Cyfnod Pwyllgor. Rwy'n cydnabod y bydd hyn yn golygu y bydd yr SLCM hwn yn cael ei osod dros bythefnos ar ôl cyflwyno'r swp cyntaf o welliannau, ond credaf y bydd hyn yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir ddatblygiad y Bil ac y bydd yn galluogi’r Senedd i graffu’n effeithiol.

Ar hyn o bryd rydym yn rhag-weld cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer dadl ar 14 Mawrth. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn parhau i gadw llygad ar amserlenni’r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi a byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddatblygiadau perthnasol o ran yr amserlen ar gyfer y broses cydsyniad deddfwriaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution